



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Pan Fydda i'n Barod

Canllaw Arfer Da

Mawrth 2016

# 'Pan Fydda i'n Barod'

## Canllaw Arfer Da

### Cynnwys

Cydnabyddiaethau 1

1.	Pwrpas y canllaw hwn.....	1
2.	Rhestr termau .....	2
3.	Beth yw 'Pan Fydda i'n Barod'? .....	4
4.	Beth mae cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' yn ceisio'i gyflawni? .....	6
5.	Pwy sy'n gymwys ar gyfer cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'?.....	7
6.	Hyd trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' .....	9
7.	Gwneud trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'.....	10
a.	15.9 oed – Aseiad Llwybr i Gynllun Llwybr .....	12
b.	16 oed – Cyfarfod Cynllunio 'Pan Fydda i'n Barod' .....	15
c.	17 oed – Rhoi pethau ar waith.....	16
d.	18 oed – Cychwyn trefniant byw 'Pan Fydda i'n Barod'. .....	24
e.	18 – 21 oed. Monitro ac adolygu'r trefniant byw. ....	24
f.	21 – 25 oed. Monitro ac adolygu'r trefniadau byw ac addysg. ....	25
8.	Cefnogi pobl sy'n defnyddio 'Pan Fydda i'n Barod' .....	26
a.	Cefnogi pobl ifanc.....	26
b.	Cefnogi gofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' .....	27
9.	Esiamplau o Bortffolio Sgiliau Byw'n Annibynnol. ....	31
10.	Treulio amser mewn prifysgol neu goleg .....	32
11.	'Pan Fydda i'n Barod' o'i gymharu â threfniadau eraill .....	33
12.	Fframwaith rheoleiddio a diogelu .....	34
Atodiad 1	Rolau a Chyfrifoldebau ar gyfer gweithredu 'Pan Fydda i'n Barod' .....	35
Atodiad 2	Beth yw Llwyddiant? .....	37

# Cydnabyddiaethau

Cyhoeddwyd y canllaw ar ran Llywodraeth Cymru gan Cognition Associates. Hoffai Llywodraeth Cymru a Cognition Associates roi diolch i'r plant a'r bobl ifanc, gofalyr maeth a staff yr awdurdodau lleol a gyfrannodd at ddatblygu'r canllawiau.

## 1. Pwrpas y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn wedi'i ysgrifennu yn bennaf ar gyfer ymarferwyr sy'n rhan o wneud a chefnogi trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'n nodi arfer da ac yn awgrymu dulliau i sefydlu trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod', ac i gefnogi pobl ifanc a'u gofalyr sy'n cychwyn ar drefniadau o'r fath.

Rydym yn gobeithio y bydd y canllaw hefyd yn rhoi cyflwyniad cyffredinol da i gynllun 'Pan Fydda i'n Barod' ar gyfer y rheiny sydd am gael gwybod mwy.

Mae'r canllaw yn ychwanegu at y Cod Ymarfer statudol sy'n ymwneud â Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<sup>1</sup> Mae'r cod yn amlinellu cyfrifoldebau cyfreithiol awdurdod lleol o ran trefniadau byw ôl-18 ar gyfer pobl ifanc mewn gofal maeth. Mae gofyn i awdurdodau lleol sefydlu cynlluniau 'Pan Fydda i'n Barod' lleol yn unol â'r gofynion yn y cod. Dylai staff awdurdod lleol sy'n sefydlu neu'n adolygu polisïau a gweithdrefnau 'Pan Fydda i'n Barod' lleol gyfeirio at y cod, sy'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei wneud a'r hyn y dylai ei wneud i gyflawni'r cynllun.

---

<sup>1</sup> <http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy> . Mae Rhan 6 yn ymdrin â'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' (tudalennau 129 - 141).

## 2. Rhestr termau

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n amlinellu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae Rhan 6 y Ddeddf yn cwmpasu plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya ac yn disodli Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 yng Nghymru. Daeth i rym ym Ebrill 2016.

### **Rhan 6**

Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Hwn yw'r fframwaith cyfreithiol newydd yng Nghymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya, ac mae'n disodli Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989. Mae Rhan 6 yn ymdrin â chynllunio gofal, lleoliadau ac adolygu, a threfniadau ar gyfer gadael gofal. Fe'i gefnogir gan reoliadau (is-ddeddfwriaeth) a Chod Ymarfer statudol. Mae'n cynnwys y dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol mewn perthynas â threfniadau byw ôl-18 ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal maeth. Daeth i rym yn Ebrill 2016.

### **Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6**

Y cynllun trosfwaol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal. Mae'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth allweddol, gan gynnwys cynlluniau iechyd, lleoliad ac addysg personol y plentyn. Yn 16 oed, bydd y cynllun gofal a chymorth Rhan 6 yn cael ei gynnwys gyda'r Cynllun Llwybr, sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer pontio o ofal.

Cyfeirir ato fel 'Cynllun gofal a chymorth Rhan 6' er mwyn gwahaniaethu rhyngddo â chynlluniau gofal a chymorth cyffredinol wedi'u paratoi o dan Rhan 4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Os yw plentyn anabl neu blentyn arall sydd â chynllun gofal a chymorth yn dechrau derbyn gofal, bydd y cynllun yn cael ei ymgorffori yn y cynllun gofal a chymorth Rhan 6.

### **Trefniant Byw Ôl-18**

Y term cyfreithiol am drefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Fe'i welir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### **'Pan Fydda i'n Barod'**

Cynllun a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i baratoi awdurdodau lleol ar gyfer eu dyletswyddau newydd o ran trefniadau byw ôl-18 o dan Ddeddf Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol weithredu eu cynlluniau 'Pan Fydda i'n Barod' lleol eu hunain yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae'n debyg ond yn wahanol i 'Staying Put' yn Lloegr.

## **Trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'**

Y term a ddefnyddir yng Nghymru ar gyfer trefniant lle mae person ifanc mewn gofal maeth yn parhau i fod gyda'u cyn-ofalwr maeth y tu hwnt i 18 oed.

## **Asesiad Llwybr**

Ychydig cyn pen-blwydd y person ifanc yn 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol gynnal asesiad o anghenion y person ifanc. Mae hyn er mwyn helpu i lunio a chofnodi pa gyngor, cymorth a chefnogaeth fyddai'n briodol iddynt ei ddarparu i'r person ifanc, wrth iddynt baratoi at adael gofal ac wedi iddynt wneud hynny. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i helpu i greu'r Cynllun Llwybr.

## **Cynllun Llwybr**

Pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal ar fin troi'n 16 oed, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol baratoi cynllun llwybr. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys y camau gweithredu sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol, gofalwr y person ifanc, y person ifanc, y teulu biolegol a phartïon eraill dynodedig i gynorthwyo'r person ifanc i symud yn llwyddiannus o fod mewn gofal i fod yn oedolyn. Bydd y cynllun llwybr yn adeiladu ar Gynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 presennol y plentyn, fydd yn cael ei gynnwys o fewn y cynllun llwybr. Bydd hefyd yn cynnwys canlyniadau'r Asesiad Llwybr. Mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', bydd y Cynllun Llwybr yn cael ei gynnwys yn bennaf yn y Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd pan fydd y person ifanc yn troi'n 18 oed. Fodd bynnag, mae'r cynllun llwybr yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol i'r hyn a geir yn y Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd. Bydd y cynllun llwybr yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau bob 6 mis nes bod y person ifanc yn 21 oed. Gallai hyn ymestyn hyd 25 oed os ydynt mewn rhaglen gytunedig o addysg neu hyfforddiant.

## **Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd**

Cytundeb rhwng y person ifanc a gofalwr mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Yn gyffredinol, bydd yn ehangu ar Gynllun Llwybr y person ifanc pan fyddan nhw'n troi'n 18 oed.

Mae'r Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd yn nodi'r canlyniadau y mae'r person ifanc yn dymuno eu cyflawni a'r gefnogaeth sydd ar gael gan y gofalwr ac eraill, yn ogystal â manylion ymarferol y trefniant. Caiff ei fonitro, ei werthuso a'i ddiwygio yn ôl yr angen yn ystod yr adolygiadau cynllun llwybr chwe misol, a gellir hefyd ei ddefnyddio'n offeryn goruchwyllo gan y gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo wrth gynorthwyo'r gofalwr.

## **Trwyddedai wedi'i wahardd**

Mae'r person ifanc yn byw yn yr eiddo ar y sail gyfreithiol hon. Yn dechnegol, mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', mae'r gofalwr yn dod yn landlord y person ifanc. Fel trwyddedai wedi'i wahardd, gall y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' ofyn i'r person ifanc adael yr eiddo yn dilyn rhybudd rhesymol.

## **Gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'**

Cyn-ofalwr maeth person ifanc sy'n parhau i gael y person ifanc yn byw gyda nhw mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' pan fydd y person ifanc yn troi'n 18 oed, ac sy'n derbyn lwfans am wneud hynny. Gallant barhau i fod yn ofalwr maeth ar gyfer plant eraill neu beidio.

### **3. Beth yw 'Pan Fydda i'n Barod'?**

Mae 'Pan Fydda i'n Barod' yn galluogi pobl ifanc sydd mewn gofal maeth i barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth ar ôl iddynt droi'n 18 oed. Mae'n eu galluogi i aros mewn amgylchedd teuluol sefydlog ac sy'n meithrin hyd at 21 oed, neu hyd at 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen gytunedig o addysg neu hyfforddiant. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau a'u hyder fel y gallant drosglwyddo'n llwyddiannus i fyw'n fwy annibynnol.

Sefydlwyd 'Pan Fydda i'n Barod' gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i baratoi awdurdodau lleol am eu dyletswyddau cyfreithiol newydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Daeth y dyletswyddau newydd i rym yn Ebrill 2016. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu cynlluniau 'Pan Fydda i'n Barod' lleol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol a nodir yn y Cod Ymarfer sy'n ymwneud â Rhan 6 y Ddeddf.

Mae cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' yng Nghymru yn debyg mewn sawl ffordd i'r cynllun 'Staying Put' yn Lloegr.

#### **Pam fod 'Pan Fydda i'n Barod' yn bwysig?**

Mae tystiolaeth yn dangos y gall y cyfnod pontio i fyd oedolion fod yn fwy anodd i bobl sy'n gadael gofal nag i lawer o'u cyfoedion o oedran tebyg. Gallai hyn fod o ganlyniad i'w profiadau yn y gorffennol, megis toriadau posibl yn eu haddysg ac absenoldeb sylfaen deuluol gefnogol. Gall amgylchiadau olygu fod y garreg filltir hon yn aml yn ddigwyddiad sydyn yn hytrach na phroses a gefnogir. Mae 'Pan Fydda i'n Barod' yn ceisio helpu lliniaru'r ffactorau hyn, fel bod pobl sy'n gadael gofal yn fwy cymwys i fod yn annibynnol ac i wneud y mwyaf o'u cyfleoedd mewn bywyd.

Dylai trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' atgynhyrchu bywyd teuluol sefydlog cyn belled ag y bo modd. Gofynnir i ofalwr maeth ofalu am unrhyw blentyn sydd wedi'i leoli gyda hwy fel pe baent yn aelod o'u teulu eu hunain. Dylai'r disgwyliad hwn hefyd gael ei estyn i'r trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' gyda'r person ifanc. Felly, dylai rôl y Gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' (cyn ofalwr maeth) fod yn debyg i rôl unrhyw riant cefnogol arall, yn cynorthwyo'r person ifanc i fod yn hunan-ddibynnol drwy eu helpu i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol mewn amgylchedd sefydlog a diogel.

Bydd y parhad hwn yn helpu i sicrhau nad yw'r bobl ifanc hyn yn cael profiad o amhariad sydyn ar eu trefniadau byw a allai gael effaith negyddol ar eu sefydlogrwydd emosiynol, eu haddysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, neu arnynt yn datblygu sgiliau byw'n annibynnol.

### **Sut mae 'Pan Fydda i'n Barod' yn wahanol i ofal maeth?**

Bellach, nid yw pobl ifanc sydd dros 18 oed 'mewn gofal' nac yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol yn gyfreithiol. Felly, nid yw trefniadau gofal na deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant sydd wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth yn gymwys mwyach. Nid yw awdurdodau lleol sy'n cynorthwyo'r oedolion ifanc hyn bellach yn gwneud 'lleoliad' maeth, ond yn lle hynny maent yn hwyluso 'trefniant byw ôl-18' ar gyfer y person ifanc. Mae hyn yn golygu bod y person ifanc mewn gwirionedd yn lletya yn y cartref o dan gytundeb 'trwyddedai wedi'i wahardd' gyda'u gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod', sydd yn dechnegol yn dod yn landlord iddynt. Fodd bynnag, y brif egwyddor yw ei fod yn parhau i fod yn gartref i'r person ifanc a'i fod ef neu hi yn parhau i fod yn aelod o'r teulu. Bydd y berthynas rhwng y gofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' a'r oedolyn ifanc yn cael ei hegluro mewn Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd.

### **Crynodeb o ddyletswyddau cyfreithiol awdurdod lleol**

---

#### Trefniadau Byw Ôl-18

O dan adran 108 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), rhaid i awdurdodau lleol:

- ganfod, pan fydd person ifanc 'sy'n derbyn gofal' ar fin troi 16 oed, a yw'r person ifanc a'i ofalwr maeth yn dymuno dechrau trefniant byw ôl-18 pan fydd y person ifanc yn troi'n 18 oed
  - darparu gwybodaeth i'r person ifanc, y gofalwr maeth a phartïon eraill sydd â diddordeb, fel y gallant wneud penderfyniad cytbwys am ddechrau trefniant byw ôl-18
  - darparu gwybodaeth a chefnogaeth arall pan fo'r person ifanc a'i g/ofalwr eisiau dechrau trefniant byw ôl-18 er mwyn hwyluso'r trefniant hwnnw.
-

## 4. Beth mae cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' yn ceisio'i gyflawni?

Canlyniad cyffredinol y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' yw y bydd person ifanc sy'n gadael gofal maeth yn cael yr amser a'r gefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau a'r gwydnwch angenrheidiol i symud ymlaen yn llwyddiannus i fyw'n annibynnol.

Mae'n golygu:

- gall y person ifanc barhau i fyw mewn amgylchedd teuluol ac aelwyd gefnogol wedi iddynt droi'n 18 oed
- bydd y person ifanc yn parhau i gael diogelwch ac amddiffyniad, a'r gefnogaeth ymarferol ac emosiynol oedd ganddynt pan gawsant eu maethu
- caiff y tebygolrwydd y bydd y person ifanc yn profi digartrefedd neu ansefydlogrwydd tai ei leihau
- gwneir y gorau o gyfleoedd i'r person ifanc gael mynediad i addysg ôl-18, cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth
- gall y person ifanc dderbyn cefnogaeth barhaus a gallant ddatblygu'r sgiliau emosiynol ac ymarferol angenrheidiol cyn ei bod hi'n ofynnol iddynt fyw yn annibynnol
- bydd y person ifanc yn datblygu'r hyder i symud i fyw'n annibynnol
- gall y person ifanc ddweud eu dweud a chael rheolaeth dros amseriad eu datblygiad o fod mewn gofal, ac nid oes rhaid iddynt adael eu cyn-deulu maeth cyn eu bod yn teimlo'n barod i wneud hynny.

Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â 'Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol' Llywodraeth Cymru a ddatblygwyd i gefnogi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<sup>2</sup>. Bydd beth mae hyn yn ei olygu i bob person ifanc yn dibynnu ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau penodol. Bydd angen canfod hyn gyda'r person ifanc a'i g/ofalwr yn ystod trafodaethau am sefydlu trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Dylai'r nodau a'r canlyniadau unigol hyn gael eu egluro yng nghynllun llwybr y person ifanc, a byddant yn helpu i lunio'r Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd rhwng y person ifanc a'i g/ofalwr. Byddant hefyd yn ffurfio sail ar gyfer monitro cynnydd y trefniant, a gwerthuso'i lwyddiant.

Mae'n hanfodol bwysig bod y rhain yn nodau a chanlyniadau unigol uchelgeisiol ar gyfer y person ifanc, ac yn eu galluogi i symud ymlaen yn llwyddiannus unwaith y bydd y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn dod i ben, ar ba bynnag oedran. Mae'n fwy na dim ond caniatáu i berson ifanc aros yn eu hunfan, ond yn eu galluogi i drosglwyddo'n llwyddiannus i fyw'n fwy annibynnol yn oedolyn mewn modd sy'n addas ar eu cyfer a chyda'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt.

Mae Atodiad 2 yn cynnwys crynodeb defnyddiol o'r hyn y dylai llwyddiant fod, ar sail gwaith a gafodd ei wneud gyda phobl ifanc a gofalwyr maeth ar draws Cymru.

---

<sup>2</sup> <http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt6cy.pdf> - (Pennod 6 a thudalennau 9 - 10)



## 5. Pwy sy'n gymwys ar gyfer cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'?

Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal sydd wedi cael eu rhoi mewn gofal maeth gan eu hawdurdod lleol, ac sy'n agosáu at 18 oed, yn gymwys i gael eu hystyried ar gyfer y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'.

Gall trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' gael eu gwneud lle:

- roedd y person ifanc yn derbyn gofal yn union cyn eu pen-blwydd yn 18 oed ac roedd yn byw gyda gofalwyr maeth mewn lleoliad a drefnwyd gan yr awdurdod lleol
- roedd y gofalwyr yn gweithredu'n ofalwyr maeth a gymeradwywyd ar gyfer y person ifanc yn union cyn eu pen-blwydd yn 18 oed
- mae'r person ifanc a'r gofalwyr maeth yn dymuno cychwyn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', ac mae'r trefniant wedi'i nodi yng nghynllun llwybr y person ifanc
- mae'r awdurdod lleol wedi'i fodloni nad yw trefniant o'r fath yn anghyson â llesiant y person ifanc
- bydd cyfran o'r lwfans a delir i'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael ei dalu gan yr awdurdod lleol.

Felly, gall trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' gynnwys yr holl bobl ifanc a oedd yn flaenorol mewn gofal maeth, ac a oedd yn derbyn gofal yn union cyn eu pen-blwydd yn 18 oed, cyn belled â bod y meini prawf uchod yn cael eu bodloni.

Nid oes rhaid i berson ifanc fod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn llawn neu'n rhan-amser er mwyn cael mynediad i 'Pan Fydda i'n Barod'. Fodd bynnag, mae disgwyliad clir y bydd y person ifanc yn ymrwmo i ddatblygu ystod eu sgiliau i'w paratoi ar gyfer byw'n annibynnol yn y dyfodol. Mae yna hefyd ddisgwyliad clir ar y gofalwr i gefnogi'r person ifanc i gyflawni hyn.

Rhaid i 'Pan Fydda i'n Barod' ganolbwyntio ar helpu'r person ifanc unigol sy'n gadael gofal maeth i drosglwyddo'n llwyddiannus i fywyd oedolyn mewn modd sy'n iawn iddyn nhw.

### **A yw pobl ifanc anabl yn gymwys ar gyfer 'Pan Fydda i'n Barod'?**

Ydyn. Gall bobl ifanc anabl symud i drefniant 'Pan Fydda i'n Barod' gyda'u gofalwr maeth pan fyddant yn 18 oed os yw hyn er eu lles ac os yw'n gallu parhau i ateb eu hanghenion a aseswyd fel a nodir yn eu cynllun gofal a chymorth.

Bydd y penderfyniad ynghylch 'Pan Fydda i'n Barod' yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Lle mae'n glir, o'r broses asesu a chynllunio llwybr, na fydd person ifanc anabl mewn gofal maeth byth yn gallu byw'n annibynnol yn

oedolyn, gallai fod yn fwy priodol i wneud trefniadau eraill ar gyfer pan fydd y person ifanc yn troi'n 18 oed. Fodd bynnag, mae'r un ystyriaethau yn berthnasol ag ar gyfer unrhyw berson ifanc arall sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain. Er enghraifft, efallai mai'r cynllun hirdymor fydd symud y person ifanc i gynllun lleoliad oedolyn ('Shared Lives'), ond nid yw'r person ifanc yn teimlo'n barod i symud i hyn yn 18 oed ac yn dymuno aros gyda'u cyn-ofalwr maeth mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' nes eu bod wedi datblygu sgiliau a hyder pellach.

Rhaid i wasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion weithio gyda'i gilydd fel rhan o'r broses asesu a chynllunio llwybr, er mwyn dod o hyd i'r trefniant tymor hwy mwyaf priodol i berson ifanc anabl. Ni ddylid byth defnyddio 'Pan Fydda i'n Barod' yn ateb dros dro i unrhyw oedi wrth asesu neu gynllunio gofal a chymorth. Rhaid iddo fod yn ddewis cadarnhaol ar ran y person ifanc a'i g/ofalwr bob amser, a cheisio cyflawni'r canlyniadau a nodir yn adran 4 uchod.

## 6. Hyd trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'

Gall trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' barhau nes bod y person ifanc yn cyrraedd 21 oed (ar yr amod eu bod wedi bod yn byw yn barhaus yn y trefniant ers eu pen-blwydd yn 18 oed). Gellir hefyd ei ymestyn tan eu pen-blwydd yn 25 oed os ydynt mewn rhaglen gytunedig o addysg neu hyfforddiant. Fodd bynnag, bydd yr union amseriad pan fydd trefniant unigol yn dod i ben yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y trefniant. Dylid trafod yr amgylchiadau lle gall trefniant ddod i ben, a'r goblygiadau ar gyfer y ddwy ochr, yn ystod y cyfarfodydd Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd. Mae'r rhestr isod yn dangos sut y gall trefniant unigol gael ei derfynu.

### 1. Gadael bwriadol a chynnar

Dylai gadael bwriadol a chynnar gan unrhyw barti gynnwys cyfnod rhybudd rhesymol o 28 diwrnod (pedair wythnos waith), pan fydd y gofalwr yn parhau i dderbyn eu lwfans 'Pan Fydda i'n Barod'. Gall y gadael hyn gael ei achosi gan:

- fod y person ifanc eisiau gadael y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'
- nad yw'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' bellach eisiau parhau â'r trefniant
- bod yr awdurdod lleol yn penderfynu nad yw'r trefniant bellach er lles y person ifanc ac yn tynnu'r gefnogaeth yn ôl.

### 2. Gadael gaiff ei achosi gan feini prawf 'Pan Fydda i'n Barod'

Beth bynnag, rhaid i'r trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' ddod i ben pan:

- mae'r person ifanc yn cyrraedd eu 21ain pen-blwydd ac nid ydynt mewn rhaglen addysg neu hyfforddiant gytunedig, neu
- mae'r person ifanc (21 – 25 oed) yn cwblhau eu rhaglen o addysg neu hyfforddiant gytunedig, neu
- mae'r person ifanc sy'n dal i ymgymryd â rhaglen o addysg neu hyfforddiant gytunedig yn cyrraedd 25 oed.

### 3. Gadael a throi allan heb eu cynllunio

Gall fod nifer o resymau dros adael heb ei gynllunio, megis toriad sydyn ac anadferadwy yn y trefniant. Efallai y bydd rhai trefniadau hefyd yn dod i ben ar unwaith. Mewn achosion lle mae'r person ifanc yn gadael ar unwaith, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn dymuno darparu cyfnod ailfeddwl o 28 diwrnod i ganiatáu cysoniad rhwng y partion. Mewn achosion lle mae'r gofalwr yn cael ei g/orfodi i droi'r person ifanc allan, ac y gallai byw drwy gyfnod o rybudd roi pobl mewn perygl, gall yr awdurdod lleol ystyried talu'r gofalwr am y 28 diwrnod yn dilyn y troi allan.

## 7. Gwneud trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'

Mae'r diagram isod yn mapio'r pontio o ofal maeth i 'Pan Fydda i'n Barod'. Mae hwn yn fodel delfrydol sy'n cynrychioli arferion da trwy gynllunio cynnar strwythuredig. Er y gall gwahanol awdurdodau lleol fod â phrosesau pontio sydd ychydig yn wahanol, efallai y byddant am ystyried y broses amlinellol isod. Ar y dudalen nesaf ceir diagram llif gwybodaeth.

### Pontio o ofal maeth i 'Pan Fydda i'n Barod'

15.9

- Dechrau ar y cynllun llwybr yn gynnar gan y gall hyn fod yn hanfodol er mwyn llwyddo
- Gwneud Asesiad Llwybr Gofal
- Ystyried meini prawf cymhwysedd 'Pan Fydda i'n Barod'.
- Trafod opsiynau gadael gofal a darparu gwybodaeth ar wahân i'r person ifanc ac i'w gofalwr maeth.
- Ceisio penderfyniadau mewn egwyddor gan y person ifanc a'r gofalwr maeth.
- Datblygu ar y Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 a chanlyniadau'r Asesiad Anghenion – creu Cynllun Llwybr sy'n gorfod mynd i'r afael ag addysg, iechyd, cswllt teulu a gallu ariannol y person ifanc

16

- Cyfarfod cynllunio 'Pan Fydda i'n Barod' - wedi'i gynnal ar wahân i adolygiad plant sy'n derbyn gofal ac yn cynnwys pawb/pob rôl sy'n rhan ohono.
- Ystyried pob addysg - TGAU, Lefel A, prifysgol neu hyfforddiant yn y dyfodol. Rhoi'r rhain yn y cynllun llwybr.
- Adolygiadau Plant Sy'n Derbyn Gofal yn dechrau nodi tasgau a
- Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol yn gwneud Adolygiad Gofalwr Maeth gan nodi sefyllfa'r cartref a'r newidiadau fydd yn digwydd.
- Dechrau'r broses o greu Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd 'Pan Fydda i'n Barod'
- Addysg - TGAU, Lefel A, prifysgol (UCAS) neu hyfforddiant yn y dyfodol wedi'i gynnwys yn y cynllun llwybr.

17

- Llofnodi Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd a Trwyddedai wedi'i Wahardd
- 'Pan Fydda i'n Barod' yn cychwyn
- Gall y person ifanc wneud cais am fudd-daliadau lles ychydig cyn eu 18fed pen-blwydd

18

- 'Pan Fydda i'n Barod' yn parhau
- Diweddarau'r Cynllun Llwybr bob 6 mis
- Monitro'r canlyniadau a nodi unrhyw gefnogaeth ychwanegol
- Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol yn parhau i ymweld â'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'
- Datblygu cynllun ar gyfer trefniadau byw ôl-'Pan Fydda i'n Barod'.
- Trefniadau hwy PFIB yn gorffen pan fo'r person ifanc yn cyrraedd 21 oni bai

18 -  
21

21-  
25

- Gall y cytundeb 'Pan Fydda i'n Barod' barhau wedi i'r person ifanc gyrraedd 21 oed a hyd at 25 oed os ydyn nhw'n dal i gymryd rhan mewn rhaglen addysg neu hyfforddiant gytunedig.
- Diweddarau'r Cynllun Llwybr yn rheolaidd

## Llif gwybodaeth

Hyd at 16  
oed

### Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6

Mae'r Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 yn bwydo'r holl wybodaeth allweddol o asesiad anghenion datblygu plentyn, ac unrhyw asesiadau eraill. Mae hyn yn cynnwys:

- Canlyniadau a nodwyd ar gyfer datblygiad y person ifanc a'r camau i'w gweithredu gan y rheiny sy'n cefnogi'r person ifanc i gyflawni'r canlyniadau hynny.
- Anghenion gaiff eu cwrdd drwy ddarparu gofal a chymorth.
- Sut caiff cynnydd tuag at gyflawni'r rhain ei fonitro a'i fesur.
- Cynnwys Cynllun Addysg Personol a chynllun iechyd y person ifanc a manylion cyswllt teuluol a gallu ariannol.
- Popeth yn bwydo i mewn i'r Cynllun Llwybr

Bron yn 16  
oed

### Asesiad Llwybr

Wrth i'r person ifanc nesáu at 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol wneud asesiad o'u hanghenion. Mae hyn er mwyn helpu i siapio'r cyngor, y cymorth a'r gefnogaeth y byddan nhw ac eraill yn ei ddarparu. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i helpu i greu'r Cynllun Llwybr.

16 – 18 oed

### Cyfarfodydd Pan Fydda i'n Barod

Dylai cyfarfod cynllunio 'Pan Fydda i'n Barod' nodi, ystyried a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r gofalwr maeth, y person ifanc a'r trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Caiff rhain eu cynnal fel bo'r galw a bwydo'r cynllun llwybr

16 – 21 / 25  
oed

### Cynllun Llwybr

Pan mae plentyn sy'n derbyn gofal ar fin troi'n 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol baratoi cynllun llwybr. Bydd hwn yn cynnwys y camau sydd eu hangen gan yr awdurdod lleol, gofalwr y person ifanc, y person ifanc, y teulu biolegol a phartïon eraill a nodwyd i gynorthwyo'r person ifanc i symud yn llwyddiannus o ofal. Caiff y cynllun hwn ei adolygu a'i ddiweddarau bob 6 mis nes fod y person ifanc yn 21 oed. Gallai hyn ymestyn hyd 25 oed os ydyn nhw mewn rhaglen addysg neu hyfforddiant

18<sup>fed</sup> pen-  
blwydd

### Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd

Gan adeiladu ar y wybodaeth sydd wedi'i gofnodi'n y cynllun llwybr, mae'r Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd yn amlinellu'r tasgau, y cyfrifoldebau a'r oblygiadau ariannol i'r person ifanc a'r gofalwr. Yn bwysig, mae hefyd yn amlinellu'r canlyniadau dymunol ar gyfer y person ifanc ac o ble y daw cefnogaeth i gyflawni'r amcanion. Ynghyd â'r trefniant Trwyddedai wedi'i Wahardd, caiff ei lofnodi ar 18fed pen-blwydd y person ifanc i nodi cychwyn 'Pan Fydda i'n Barod'.

## a. 15.9 oed – Aseiad Llwybr i Gynllun Llwybr

Pan fydd y person ifanc yn nesáu at eu pen-blwydd yn 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol wneud Aseiad Llwybr. Bydd yr aseiad hwn yn canolbwyntio ar pa gyngor, cymorth a chefnogaeth sydd ei angen i'r person ifanc symud yn llwyddiannus o fod mewn gofal i ffynnu'n oedolyn annibynnol. Bydd canlyniadau'r aseiad hwn yn helpu i siapio cynnwys y Cynllun Llwybr.

### Canolbwyntio ar fyw'n annibynnol

Tra bod bob amser disgwyl i awdurdodau lleol gefnogi trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, rhaid iddynt hefyd gymryd i ystyriaeth lles y person ifanc dan sylw. Er enghraifft, os oes gan y person ifanc anawsterau dysgu difrifol iawn sy'n eu hatal rhag byw'n annibynnol yn oedolyn, mae'n bosib na fyddai eu gosod ar gynllun lle annibyniaeth yw'r canlyniad a ddymunir er eu lles. Yn yr amgylchiadau, efallai y bydd angen i wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion weithio gyda'i gilydd i wneud trefniadau ôl-18 eraill.

### Cynnal trafodaethau ar wahân

O'r cyfle cyntaf, mae angen i'r person ifanc a'u gofalwr maeth ddeall yn llawn natur y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Rhaid i wybodaeth fod ar gael mewn fformatau priodol a hygyrch i'r ddwy ochr a dylai'r cynllun gael ei esbonio'n ddigonol iddynt mewn cyfarfodydd ar wahân. Diben hyn yw er mwyn canfod yn iawn bod y ddwy ochr yn deall beth yw trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', yr hyn a ddisgwylir ganddynt, y goblygiadau ariannol ac a ydynt yn teimlo ei fod yn iawn iddynt hwy. Dylid cymryd gofal nad yw agweddau positif bod mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael eu lleihau gan y derminoleg gyfreithiol ac ariannol newydd.

**Ni ddylid disgwyl i berson ifanc benderfynu a fyddant eisiau'r trefniant hwn hyd nes eu bod yn barod i wneud hynny.** Nid yw'n bosibl chwaith bob amser i ofalwyr maeth wneud ymrwymadau cadarn ynghylch y dyfodol, yn enwedig os bydd amgylchiadau yn debygol o newid. Felly, penderfyniadau mewn egwyddor yw'r holl benderfyniadau a wneir ar y cam hwn, a dylid eu hysgrifennu yng nghynllun llwybr y person ifanc. Mae penderfyniadau sydd wedi'u grymuso yn allweddol i lwyddiant. Mae gan bob person ifanc sy'n derbyn gofal hawl i Gynghorydd Personol, ac os oes angen, dylai'r person ifanc gael cynnig gwasanaeth eiriolwr annibynnol i gefnogi'r person ifanc trwy gydol y broses hon.

Efallai y bydd o werth i gynnal trafodaethau gyda'r gofalwr maeth yn gyntaf, er mwyn osgoi bod y person ifanc yn cael unrhyw ddisgwyliadau ffug o aros ar ôl 18 oed os nad yw eu gofalwr maeth yn fodlon neu'n gallu cychwyn ar drefniant o'r fath.

## Cwestiynau cyffredin

Mae'r tablau ar y dudalen nesaf yn adlewyrchu'r cwestiynau mwyaf cyffredin gan ofalwyr maeth a phobl ifanc. Gellir canfod nifer o'r atebion i'r cwestiynau hyn yn y ddogfen hon ac ym mholisiâu a gweithdrefnau 'Pan Fydda i'n Barod' yr awdurdodau lleol. Dylai pobl sy'n darparu cefnogaeth i ofalwyr a phobl ifanc arfogi eu hunain ag atebion sy'n adlewyrchu'r modd y mae'r awdurdod lleol yn gweinyddu'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'. Gellir datblygu'r rhestr hon wrth i'r awdurdod lleol greu mwy o drefniadau.

### Cwestiynau cyffredin ...

Y Person Ifanc	Gofalwyr Maeth
<b>'Pan Fydda i'n Barod'</b>	<b>'Pan Fydda i'n Barod'</b>
Beth yw 'Pan Fydda i'n Barod'?	Pryd mae'r broses yn cychwyn?
Pam na alla i gael fy maethu o hyd?	Beth yw'r gwahaniaeth rhwng gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' a gofalwr maeth?
Beth yw fy opsiynau eraill i?	Pwy sy'n gyfrifol am drafod 'Pan Fydda i'n Barod' gyda'r person ifanc?
<b>Trefniadau byw</b>	Beth os nad yw'r lleoliad yn gweithio?
Beth yw cytundeb byw gyda'n gilydd? Pwy sy'n ei ysgrifennu?	Alla i dal faethu pan mae gen i leoliad 'Pan Fydda i'n Barod'?
Beth yw byw'n annibynnol?	<b>Cyllid</b>
Alla i gael fy allwedd fy hunan?	Faint o arian fydda i'n ei dderbyn?
Alla i ddod adref wedi meddwi?	Ydw i dal yn gyfrifol am dalu am eu dillad a'u gwyliau?
Pwy sy'n coginio fy mwyd i?	Alla i dal hawlio budd-dal tai?
Beth os ydw i'n cwmpo'n feichiog?	<b>Cefnogaeth</b>
Alla i gael ffrindiau i aros?	Faint o gefnogaeth fydda i'n ei dderbyn?
<b>Cyllid</b>	Faint o gefnogaeth fydd y person ifanc yn ei dderbyn?
A fydd gen i fy nghyfrif banc fy hunan na all neb dynnu arian ohono?	Pa fath o gefnogaeth fydda i'n ei gael os aiff pethau o'i le?
O ble y gaf fi'r arian?	Pa hyfforddiant fydda i'n ei dderbyn?
Pam fod rhaid i ni dalu arian iddyn nhw?	<b>Trefniadau byw</b>
Am beth sydd rhaid i fi dalu?	Beth yw cytundeb byw gyda'n gilydd a phwy sy'n ei ysgrifennu?
Ydyn nhw'n dal i brynu anrhegion Nadolig a phen-blwydd i fi?	Oes rhaid i mi roi allwedd y tŷ iddyn nhw?
Oes yna restr/rhywbeth y galla i edrych arno i gael gwybod beth sy'n rhaid i fi dalu amdano?	Beth sy'n digwydd os ydw i'n mynd ar wyliau - oes rhaid i mi adael iddynt aros yn fy nghartref?
Beth os na alla i / wnaf i dalu fy miliau?	Beth sy'n digwydd os nad ydyn nhw'n dod adref?
Ydyn nhw dal yn prynu eich dillad chi?	Fydd rhaid i mi fynd â nhw i apwyntiadau meddyg?
Fydd fy ngofalwyr yn dal i dalu am fy	Beth sy'n digwydd os yw'r person ifanc

ngwyliau ac anrhegion?
Pwy sy'n penderfynu beth sydd i'w dalu?
<b>Cefnogaeth</b>
Fyddda i'n dal i gael unrhyw gefnogaeth?
Pwy fydd yn fy helpu os aiff rhywbeth o'i le?
Fydd rhaid i fi fynd i gyfarfodydd LAC o hyd?
Sut ydw i'n cyrraedd apwyntiad?
Sut fydd fy nheulu i'n ymweld â fi?

yn mynd i brifysgol ond eu bod eisiau dod adref atom ni ar gyfer gwyliau a seibiannau?

Mae Adran 13 yn amlinellu beth yw llwyddiant i bobl ifanc ac i ofalwyr maeth. Gall yr wybodaeth hon, ynghyd ag atebion i'r cwestiynau cyffredin, fod yn ddefnyddiol iawn wrth roi siâp ar sgysiau gyda'r person ifanc a'u gofalwr maeth.

### **Beth fydd yn digwydd pan nad oes ymrwymiad gan y gofalwr maeth?**

Yn dilyn y trafodaethau cynnar hyn, gallai fod yn amlwg, er bod y person ifanc yn awyddus i gychwyn ar drefniant 'Pan Fyddda i'n Barod', efallai na fydd yn bosibl i hyn ddigwydd gyda'u gofalwr maeth presennol am y rhesymau canlynol:

- mae'r lleoliad maeth mewn perygl o chwalu cyn pen-blwydd y person ifanc yn 18 oed
- mae'r person ifanc yn awyddus i gychwyn ar drefniant 'Pan Fyddda i'n Barod' ond nid gyda'u gofalwr maeth presennol
- nid yw gofalwr maeth presennol y person ifanc yn dymuno ymrwymo i drefniant 'Pan Fyddda i'n Barod'.

Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r awdurdod lleol ystyried symud y person ifanc i leoliad maeth newydd lle mae trefniant 'Pan Fyddda i'n Barod' yn bosibl, os dyma yw'r hyn y mae'r person ifanc yn ei ddymuno.

Fodd bynnag, gall fod amgylchiadau lle y daw'n amlwg bod gofalwr maeth yn agored i'r posibilrwydd o drefniant 'Pan Fyddda i'n Barod', ond heb fod yn teimlo'u bod yn gallu ymrwymo am resymau ariannol neu resymau eraill. Os yw'r person ifanc yn awyddus i barhau â'r berthynas, a bod yr awdurdod lleol yn ystyried ei fod er lles y person ifanc, bydd trafodaethau pellach yn angenrheidiol i weld a ellir goresgyn pryderon y gofalwr maeth er mwyn i'r trefniant fynd yn ei flaen.

### **Trafodaethau gyda phobl ifanc mewn llety preswyl**



Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer pobl ifanc mewn llety preswyl (cartrefi plant) i aros o fewn y lleoliad hwnnw y tu hwnt i 18 oed. Rhaid i bobl ifanc mewn llety preswyl **hefyd gael gwybod** am y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' fel rhan o'r broses asesu a chynllunio llwybr. Os yw'r person ifanc yn dymuno symud i drefniant 'Pan Fydda i'n Barod', a bod yr awdurdod lleol yn ystyried bod hyn er eu lles, yna dylai'r awdurdod lleol ystyried symud y person ifanc i leoliad maeth a allai ddod yn ddigon sefydlog cyn eu penblwydd yn 18 oed, gan ddisgwyl y daw hwn yn drefniant 'Pan Fydda i'n Barod'.

### **Beth sy'n digwydd pan nad oes ymrwymiad gan y naill ochr na'r llall?**

Mae cychwyn ar drefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn benderfyniad mawr, ac efallai y bydd rhai adegau pan na fydd person ifanc a'u gofalwyr maeth yn teimlo y gallant ymrwymo i hyn yn syth. Efallai y byddant hefyd yn newid eu meddyliau rhwng 16 a 18 oed. Mae'n bwysig felly i gynnal y deialog gyda'r person ifanc a gofalwyr maeth, ac i ystyried ymhob adolygiad a oes unrhyw beth wedi newid i wneud trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn bosibl. Bydd hyn yn cynnwys archwilio gyda'r person ifanc a'u gofalwyr unrhyw bryderon neu rwystrau rhag cychwyn ar drefniant. Fodd bynnag, bydd angen ymrwymiad llawn gan y naill ochr a'r llall cyn i drefniant 'Pan Fydda i'n Barod' gael ei roi ar waith.

Pryd bynnag nad yw trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn mynd yn ei flaen, dylid gwneud y rhesymau am hyn yn glir a'u cofnodi fel bod gan y person ifanc a'r gofalwr maeth gofnod clir ynghylch pam y gwnaed penderfyniadau.

### **Y Cynllun Llwybr**

Bydd y 'Cynllun Llwybr' yn cynnwys y wybodaeth a ddatblygwyd drwy'r asesiad anghenion llwybr hwn, gan adeiladu ar, a chynnwys eu Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 unwaith y bydd y person ifanc yn cyrraedd 16 oed. Yna, rhaid i'r cynllun hwn gael ei egluro a'i ddarparu i'r person ifanc a'i adolygu bob 6 mis.

## **b. 16 oed – Cyfarfod Cynllunio 'Pan Fydda i'n Barod'**

Unwaith ei bod hi'n amlwg fod y person ifanc a'u gofalwr maeth yn dymuno cychwyn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', bydd angen i chi drefnu cyfarfodydd i gynllunio manylion y trefniant. Mae'n arfer da i gadw rhain ar wahân i gyfarfodydd adolygu LAC, gan fod gan adolygiadau LAC swyddogaeth ehangach. Fodd bynnag, dylai'r cyfarfodydd fod yn cefnogi ei gilydd, ac efallai y byddwch yn dymuno ystyried cynnal yr adolygiad LAC a'r cyfarfod cynllunio 'Pan Fydda i'n Barod' yn olynol ar yr un diwrnod. Bydd hyn yn helpu i sicrhau'r presenoldeb gorau, a dylai hwyluso ymateb cyflym gan y tîm Plant sy'n Derbyn Gofal i unrhyw faterion a nodwyd yn y cyfarfod cynllunio.

### **Cynllun Cyfarfod 'Pan Fydda i'n Barod'**

Pwrpas y cyfarfod cynllunio 'Pan Fydda i'n Barod' yw nodi, ystyried a mynd i'r afael ag unrhyw faterion mewn perthynas â'r gofalwr maeth, y person ifanc a'r trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Dylai'r cyfarfod gynnwys y person ifanc, y gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol y person ifanc, gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, swyddog adolygu annibynnol, cynghorydd personol ac unrhyw rai eraill a allai fod yn rhan o greu'r trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Bydd tasgau gwahanol yn cael eu nodi a'u neilltuo i'r aelod staff priodol o'r awdurdod lleol.

Os oes unrhyw bosibilrwydd y gallai'r person ifanc fynd ymlaen i addysg uwch, dylid trafod hyn ar unwaith, gan fod oblygiadau ariannol a allai effeithio'n ddifrifol ar barodrwydd neu allu'r gofalwr maeth i gychwyn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Gweler adran 10.

Efallai y bydd angen cyfarfodydd pellach i drafod dealltwriaeth ac ymrwymiad i fyw mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Ar y pwynt hwn, rhaid i oblygiadau ariannol y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' gael eu hamlinellu'n llawn a'u hesbonio i'r person ifanc a'r gofalwr. Efallai y bydd gwybodaeth lawn am y goblygiadau ariannol yn arwain at y gofalwr yn penderfynu peidio â mynd ymlaen â'r cynllun, gan sbarduno chwilio am leoliad newydd.

Gan gydnabod bod digwyddiadau a pherthnasoedd yn newid, mae'n bwysig bod cynlluniau gadael gofal amgen yn cael eu hystyried a hefyd yn cael eu rhannu yn yr adolygiad LAC.

### **Adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (LAC)**

Mae gan bobl ifanc sydd wedi bod yn derbyn gofal am fwy na 13 wythnos hawl i gael cymorth tan eu bod yn o leiaf 21 oed neu 25 oed pan fyddant yn parhau i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant, ac mae hyn yn parhau tan ddiwedd y rhaglen y cytunwyd arni fel y nodir yn eu llwybr cynllun. Ble 'Pan Fydda i'n Barod' yw'r trefniant byw a ffefrir ôl-18, dylai'r adolygiadau plant sy'n derbyn gofal gefnogi'r broses honno a nodi tasgau a chyfrifoldebau ar gyfer pontio'n llwyddiannus. Dylid hefyd ystyried cynlluniau wrth gefn.

## **c. 17 oed – Rhoi pethau ar waith.**

Dylai'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol gynnal Adolygiad Gofalwr Maeth yn nodi sefyllfa'r cartref a newidiadau, gan gynnwys materion diogelu, a fydd yn codi os bydd y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn mynd yn ei flaen.

Lle mae'n debygol fod yna blant eraill mewn lleoliadau maeth yn y cartref, bydd angen i chi drefnu gwiriad CRB ar y person ifanc sy'n cychwyn ar y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Mae hyn yn adlewyrchu eu statws yn oedolyn yn y cartref. Os yw'r gwiriad CRB yn tynnu sylw at risg posibl, bydd angen i chi hefyd gynnal asesiad risg. Rhaid hefyd dychwelyd i'r panel maethu oherwydd y newid amgylchiadau. Gall y prosesau hyn gymryd amser, felly

mae'n bwysig eu bod yn cael eu gweithredu'n gyflym, fel nad ydynt yn peryglu'r trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Gweler adran 12 y ddogfen hon.

### **Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd**

Mae'r Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd yn amlinellu'r tasgau, y cyfrifoldebau a rhwymedigaethau ariannol y person ifanc a'r gofalwr. Dylai hefyd gynnwys enwau pawb fydd yn cefnogi'r person ifanc, y gofalwr, a natur a chwmpas y gefnogaeth honno. Yn bwysig, mae hefyd yn amlinellu'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer y person ifanc. Dylid cymryd gofal i sicrhau bod y cynllun yn cael ei ysgrifennu mewn ffordd sy'n glir ac yn hygyrch i bawb.

Er mwyn rhoi digon o amser i ddatblygu'r cytundeb hwn, dylai'r awdurdod lleol drefnu cyfarfod Cytundeb Byw gyda'n Gilydd o leiaf chwe mis cyn fod y person ifanc yn 18 oed. Dylai'r person ifanc, gofalwyr maeth, cynghorwyr personol, gweithiwr cymdeithasol y person ifanc a'r gweithiwr cymdeithasol maethu goruchwylol i gyd fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Bydd gan bobl ifanc mewn gofal 'Gynllun Lleoli'. Mae hwn yn rhan o'r Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 a pan fydd y person ifanc yn cyrraedd 16 oed, bydd cynnwys y cynllun lleoli yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Llwybr. Mae'n amlinellu'r trefniant byw o ddydd i ddydd sy'n perthyn i'r lleoliad hwnnw, ac er y gall y cynllun hwn gael ei ddatblygu yn y 'Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd', bydd ei ethos yn newid yn sylfaenol gan y bydd y cytundeb newydd rhwng dau oedolyn. Bydd yn cynnwys canlyniadau dymunol clir o helpu'r person ifanc i gael y sgiliau ymarferol, emosiynol ac ymddygiadol i ffynnu'n oedolyn annibynnol.

Dylai'r dull o lunio Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd fod yn sensitif i deimladau y bobl dan sylw ac yn gymesur â'u hamgylchiadau penodol. Mae graddau'r manylder sy'n ofynnol ymhob achos yn dibynnu ar natur y berthynas bresennol rhwng y person ifanc a'u gofalwr, a faint y gallai hyn newid.

Gall y Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd gynnwys:

- y canlyniadau y mae'r person ifanc yn dymuno eu cyflawni
- nodi'r sgiliau / tasgau sy'n ofynnol ar gyfer byw'n annibynnol, a sut y bydd y tasgau hyn yn cael eu monitro a'u cwblhau'n llwyddiannus yn cael ei dystiolaethu (mae portffolio Sgiliau Byw'n Annibynnol yn ffordd ddelfrydol o strwythuro a monitro'r cyflawniadau hyn)
- manylion am y gefnogaeth a ddarperir gan y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' i helpu'r person ifanc i gyflawni'r tasgau a'r canlyniadau a ddiffiniwyd
- manylion am y gefnogaeth a ddarperir gan eraill i helpu'r person ifanc i gyflawni'r tasgau a'r canlyniadau a ddiffiniwyd
- cyfraniad disgwylidig y person ifanc i gyflawni'r tasgau a'r canlyniadau a ddiffiniwyd

- yr addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, gwirfoddoli a gytunwyd a/neu weithgareddau paratoi am waith cytunedig sydd ei angen i lwyddo i fyw'n annibynnol
- y cyfraniad ariannol y disgwylir i'r person ifanc ei wneud i'r aelwyd
- materion ariannol cyffredinol megis pobl ifanc yn cael cardiau credyd, cytundebau benthyg a chontractau ffôn symudol wedi'u cofrestru'n y cyfeiriad
- trefniadau i hybu iechyd a llesiant y person ifanc, gan gynnwys cyfraniad y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' i ddiwallu unrhyw anghenion iechyd meddwl ac emosiynol
- trefn y cartref a disgwyliadau'r person ifanc o ran tasgau, gwaith tŷ ac arferion y cartref
- trefniadau ar gyfer pan fydd ffrindiau a phartneriaid yn aros nos, neu ar adegau pan fydd y person ifanc yn aros i ffwrdd
- rheoli unrhyw ymddygiad cymryd risg
- materion yn ymwneud â phlant maethu neu blant eraill sy'n byw yn y cartref, gan gynnwys trefniadau diogelu, modelu rôl a chadw amser
- cynlluniau symud ymlaen

Ar y dudalen ganlynol ceir enghraifft o 'Gytundeb Byw Gyda'n Gilydd', sy'n nodi'r math o wybodaeth a all fod ynddo. Sylwch fod yna oblygiadau clir ar gyfer y person ifanc a'r gofalwr.

**Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd rhwng:** ..... (Oedolyn ifanc)

..... (Gofalwr PFIB)

**Bydd y cytundeb hwn yn cychwyn ar** .....

**Mae'r cytundeb hwn yn caniatâu i** ..... **barhau i fyw yn:**

.....

.....

**Mae'r cytundeb hwn yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan y person ifanc a'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'**

**1. Isod mae'r pethau sy'n rhaid i'r person ifanc ..... eu gwneud:**

**a. Rheolau'r Tŷ. Bydda i'n:**

- Glanhau'r gegin wedi i mi ei defnyddio
- Newid dillad fy ngwely'n wythnosol
- Ddim yn ysmegu yn y tŷ
- Rhoi gwybod i chi os ydw i'n torri unrhyw beth
- Rhoi gwybod i chi os oes angen trwsio neu newid unrhyw beth
- Ddim yn cadw sylweddau anghyfreithlon yn yr eiddo
- Cadw at y rheolau alcohol
- Cael caniatâd i ymwelwyr aros nos; rhoi gwybod pan ydw i'n aros allan;
- Gwneud fy nhasgau gwaith tŷ h.y. clirio ar ôl fy hun; defnyddio ffôn y tŷ; golchi dillad
- Ayb

**b. Cyllidebu**

- Cyfrannu £..... bob wythnos tuag at gostau'r cartref
- Cyfrannu £..... bob wythnos tuag at y rhent yn ogystal â'r hyn gaiff ei dalu gan fuddal tai
- Blaenoriaethu talu biliau
- Ayb

**c. Cyfathrebu**

- Rhannu manylion cyswllt
- Cymryd rhan mewn cyfarfod cyfathrebu/cynnydd (os os angen)
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd Cynllun Llwybr
- Ayb

**d. Paratoi ar gyfer byw'n annibynnol**

- Cwblhau'r gweithgareddau datblygu sgiliau a nodir yn y portffolio Sgiliau Byw'n Annibynnol ac sydd wedi'u rhestru yn y Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd.
- Cadw tystiolaeth fy mod i'n gweithio tuag at annibyniaeth.
- Ayb

**2. Pethau sydd rhaid i ..... y Gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' eu gwneud**

**a. Rheolau'r Cartref**

- trwsio eitemau cyn gynted ag y bo modd
- ayb

**b. Cyllidebu**

- cefnogi'r Person Ifanc bob dydd tâl i gynllunio'u gwario
- ayb

**c. Cyfathrebu**

- Cyfnewid manylion cyswllt; nodi'r camau sydd i'w cymryd gan y gofalwr os oes ganddynt bryderon; nodi'r camau sydd i'w cymryd gan yr oedolyn ifanc
- Darparu cyfarfod cyfathrebu wythnosol
- ayb

**d. Paratoi ar gyfer Bod yn barod i fyw'n annibynnol**

- Cynorthwyo'r person ifanc i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol fel a amlinellir yn y Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd

**3. Rhestr o sgiliau a gweithgareddau a phwy fydd yn darparu'r gefnogaeth**

- Ayb, ayb, ayb

Drwy gadw at y cytundeb hwn a thrwy weithio gyda ....., y Gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod', mae ..... yn anelu at ddatblygu sgiliau fydd yn arwain at fyw'n annibynnol yn llawn

**Oedolyn ifanc:** ..... Llofnod .....

**Gofalwr PFIB:** ..... Llofnod .....

**Cynghorydd Personol**

Enw: ..... Llofnod .....

Dyddiad: .....

**Gweithiwr cymdeithasol goruchwylio**

Enw: ..... Llofnod .....

Dyddiad: .....

## **Portffolio Sgiliau Byw'n Annibynnol.**

Gan adeiladu ar gynnwys y cynllun llwybr, gall y person ifanc, eu gofalwr a gweithiwr cymdeithasol, ddatblygu portffolio o weithgareddau er mwyn dangos sut y maent yn paratoi ar gyfer, ac yn symud tuag at gael y sgiliau a'r lles corfforol ac emosiynol i fyw'n annibynnol. Gellir cyfeirio at ddatblygiad y portffolio hwn yn y cytundeb byw gyda'n gilydd.

Dylai'r gweithgareddau hyn fod o fewn strwythur a fydd yn eu galluogi i ddangos tystiolaeth o'u cyflawniadau a hefyd amlygu lle mae angen datblygiadau pellach. Dylai tasgau ennyn brwdfrydedd, fod yn werth chweil ac fod wedi'u cynllunio i ddatblygu sgiliau a fydd yn galluogi pobl ifanc i:

- ddatblygu sgiliau byw sylfaenol, megis tasgau yn y cartref, coginio a hylendid personol
- trafod yn effeithiol mewn perthynas ag eraill
- gwybod sut i fod yn bendant ac ymrwthod dylanwadau diangen gan gyfoedion a dylanwadau eraill
- datblygu sgiliau i addasu yn rhwydd i sefyllfaoedd sy'n newid
- datblygu'r hyder i osod nodau personol a rhoi eu syniadau ar waith
- dysgu strategaethau er mwyn sicrhau y byddant yn ddiogel a chyfreithlon bob amser
- deall cysyniad cyfrifoldeb
- cymryd rhan yn y cyfleoedd perthnasol sydd ar gael iddynt mewn addysg, hyfforddiant ac ym myd gwaith
- cynyddu annibyniaeth drwy reoli cyllid personol
- gwrando, ystyried a gwerthuso safbwynt person arall yn feirniadol ac ymateb yn briodol.

Dylai fod tystiolaeth glir ar gyfer pob gweithgaredd gaiff ei gwneud fel bod gan y person ifanc gofnod cyrhaeddiad. Gall y portffolio hefyd gael ei ddefnyddio'n tystiolaeth o barodrwydd y person ifanc i symud ymlaen a byw'n fwy annibynnol. Gweler adran 9 am enghreifftiau.

## **Deall eu rhwymedigaethau newydd**

Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y gofalwr maeth a'r person ifanc yn deall y gwahaniaeth rhwng gofal maeth a'r rhwymedigaethau newydd a nodir yn y 'Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd' yn llawn. Mae gan y ddwy ochr rhwymedigaethau, gyda'r gofalwr yn cael y dasg o helpu i sicrhau bod gan y person ifanc sgiliau byw'n annibynnol.

## **Egluro disgwyliadau i bobl ifanc**

Dylai'r person ifanc ddeall yn llawn wrth gychwyn ar drefniant 'Pan Fydda i'n Barod', eu bod yn ymrwymo i ymgymryd â datblygiad sgiliau i baratoi ar gyfer eu dyfodol annibynnol. Os nad ydynt yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, dylai'r person ifanc fod yn mynd ati i geisio cymryd rhan mewn gweithgareddau megis gwaith gwirfoddol neu raglenni paratoi ar gyfer cyflogaeth. Dylai hyn fod yn rhan o'r trafodaethau gyda pherson ifanc yn ystod y broses cynllunio llwybr a adlewyrchir yn y Trefniant Byw Gyda'n Gilydd.

## Egluro disgwyliadau i'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'

Rôl y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' yw helpu'r oedolyn ifanc i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol. Byddant yn gwneud hyn drwy:

- ddarparu cartref ar gyfer y person ifanc
- darparu cymorth ac arweiniad o ddydd i ddydd i'r person ifanc
- sicrhau bod y person ifanc yn parhau i adeiladu ar y sgiliau angenrheidiol ar gyfer byw'n annibynnol, ac yn gwybod ble i fynd i gael cymorth
- cynorthwyo'r person ifanc i ddatblygu eu gallu emosiynol, datblygu ymddygiad priodol a chynyddu hunanhyder i reoli'r newid i fod yn oedolyn
- cymryd rhan ymhob adolygiad o'r cynllun llwybr.

Dylid hefyd ei ddatgan i'r ddau barti, os daw'n amlwg nad yw'r person ifanc neu'r gofalwr yn cyflawni eu rolau cytunedig, yna bydd yr awdurdod lleol yn ystyried cefnogi'r person ifanc i symud ymlaen o 'Pan Fydda i'n Barod' i drefniant byw gwahanol.

## Cyfarfod 'Pan Fydda i'n Barod' cyn-18

Mae'n bwysig ar y cam hwn i atgoffa pawb sy'n gysylltiedig o ddisgwyliadau a gofynion y trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod'. Isod, mae pedair rhestr wirio i helpu'r rhai sydd yn cefnogi'r person ifanc a'r gofalwr i sicrhau fod popeth yn ei le. Gall y rhain gael eu datblygu yng ngoleuni profiad.

Person Ifanc	Camau Gofynnol
<b>Gwybodaeth 'Pan Fydda i'n Barod'</b>	<b>Gwybodaeth 'Pan Fydda i'n Barod'</b>
A yw'r person ifanc yn deall eu statws a chyfrifoldebau newydd a sut mae'n wahanol i gael eu maethu?	
<b>Cyllid</b>	<b>Cyllid</b>
A yw'r person ifanc yn deall eu cyfrifoldebau ariannol sy'n gysylltiedig ag aros mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'?	
Oes gan y person ifanc rif YG?	
<b>Cefnogaeth</b>	<b>Cefnogaeth</b>
A oes rhywun yn cynorthwyo'r person ifanc i hawlio budd-dal?	
A yw'r person ifanc yn deall o le y bydd cymorth yn dod yn y dyfodol a chwmpas y cymorth hwnnw?	
<b>Addysg</b>	<b>Addysg</b>
A yw dymuniadau addysg y person ifanc yn hysbys i bawb ac a yw'n cynnwys addysg uwch?	
<b>Gofalwyr / teulu maeth</b>	<b>Camau Gofynnol</b>
<b>Gwybodaeth 'Pan Fydda i'n Barod'</b>	<b>Gwybodaeth 'Pan Fydda i'n</b>



	<b>Barod'</b>
A yw'r gofalwr yn deall eu rôl newydd yn ofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' a sut mae'n wahanol i fod yn ofalwr maeth?	
<b>Cyllid</b>	<b>Cyllid</b>
A yw'r gofalwr yn deall yn llawn y goblygiadau ariannol o gychwyn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'?	
A yw'r gofalwr yn deall effaith trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' ar eu hincwm budd-daliadau lles ac ar eu cyfrifoldebau a rhwymedigaethau Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol?	
A yw'r gofalwr wedi rhoi gwybod i'w benthyciwr morgais a/neu wedi newid eu hyswiriant yn briodol?	
<b>Cefnogaeth</b>	<b>Cefnogaeth</b>
A yw'r gofalwr wedi derbyn yr hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl newydd?	
<b>Gwybodaeth am y cartref</b>	<b>Gwybodaeth am y cartref</b>
A yw pobl ifanc eraill yn y cartref wedi cael gwybod am, ac wedi derbyn gwybodaeth am y trefniadau newydd? A ydynt wedi cael cyfle i rannu eu barn, eu meddyliau a'u teimladau am y trefniant arfaethedig?	
<b>Awdurdod Lleol</b>	<b>Camau Gofynnol</b>
<b>Darparu gwybodaeth</b>	<b>Darparu gwybodaeth</b>
A ystyriwyd a ddylid darparu gwybodaeth am 'Pan Fydda i'n Barod' i'r teulu biolegol?	
<b>Cynllun wrth gefn</b>	<b>Cynllun wrth gefn</b>
A oes cynllun wrth gefn yn barod, petai'r trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn chwalu?	
<b>Diogelu</b>	<b>Diogelu</b>
A yw'r awdurdod lleol yn fodlon bod trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn gyson â lles y person ifanc?	
A yw gweithdrefnau diogelu wedi'u diweddarau i gynnwys y trefniadau hyn.	
Os oes angen, oes gwiriad DBS wedi'i wneud ar y person ifanc? Gweler adran 12	
<b>Gofalwr Maeth &amp; Person ifanc</b>	<b>Camau Gofynnol</b>
<b>Trefniant Byw Gyda'n Gilydd</b>	
A yw pob parti yn deall ac yn fodlon â'r tasgau a amlinellir yn y Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd?	
<b>Cyllid</b>	
A yw pob parti yn gwybod beth yw Cytundeb Trwyddedai wedi'i Wahardd?	
<b>Cefnogaeth</b>	
A yw pob parti yn glir o ble y bydd cymorth yr awdurdod lleol yn dod pan fydd y person ifanc yn cyrraedd 18 oed, a phwy fydd yn ei ddarparu?	

## **Gwneud trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' hwyr**

Oherwydd amgylchiadau unigol, efallai na fydd trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' bob amser yn codi o ganlyniad i gynllunio cynnar wedi'i strwythuro o fewn lleoliad maeth hirdymor. Hyd yn oed pan fydd y person ifanc yn 16 neu 17 oed, mae hi dal yn bwysig ystyried a fydd lles y person ifanc mewn lleoliad maeth yn cael ei gwrdd orau drwy symud i fod yn oedolyn o fewn trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod'. Wrth drefnu trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' hwyr, dylai'r prosesau sydd eu hangen yn gyffredinol i greu trefniadau dal ddigwydd, er mae'n bosibl y caiff yr amserlen ei byrhau.

### **d. 18 oed – Cychwyn trefniant byw 'Pan Fydda i'n Barod'.**

#### **Llofnodi cytundebau**

Pan fydd y person ifanc yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed, nid ydynt bellach mewn gofal. Ar y pwynt hwn, mae'r person ifanc, y gofalwr a'r aelodau staff cymorth priodol o'r awdurdod lleol yn llofnodi'r Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd 'Pan Fydda i'n Barod'. Mae'r person ifanc a'r gofalwr hefyd yn llofnodi cytundeb trwyddedai wedi'i wahardd. Mae hyn yn nodi cychwyn y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'.

#### **Beth yw cytundeb trwyddedai wedi'i wahardd?**

Unwaith y bydd person ifanc mewn lleoliad maeth yn troi'n 18 oed, mae'r sail gyfreithiol ar gyfer parhau i fyw yn eu cyn-gartref gofal maeth yn newid, gan eu bod yn dod yn 'drwyddedai wedi'i wahardd'. Mae hyn yn golygu, i bob pwrpas, eu bod yn lletya yn y cartref ac mae'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' yn dechnegol yn dod yn landlord iddynt. Fel trwyddedai wedi'i wahardd, gellir gofyn i'r person ifanc adael yr eiddo gan y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod', sydd yn gorfod rhoi 'rhybudd rhesymol'. Mae cael y person ifanc a'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' i lofnodi cytundeb trwydded yn ei gwneud yn haws i'r person ifanc hawlio budd-dal tai. At ddibenion budd-dal tai, mae cytundeb 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael ei ystyried yn drefniant masnachol.

### **e. 18 – 21 oed. Monitro ac adolygu'r trefniant byw.**

Nid yw cychwyn y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn awgrymu diwedd ar y gefnogaeth a roddir i'r person ifanc a'r gofalwr. Dylai cynnydd y person ifanc tuag at gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y Cytundeb Byw Gyda'n Gilydd gael ei fonitro, ei werthuso, a'i ddiwygio yn ôl yr angen, yn ystod yr adolygiadau cynllunio llwybr bob chwe mis. Mae hyn yn caniatáu i'r cytundeb gael ei ddefnyddio'n offeryn goruchwyllo gan y gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo a gan gynghorwyr personol. Dylai hyn barhau nes bod y person ifanc yn cyrraedd 21 oed.

### **Sut mae llwyddiant yn edrych?**

Wrth fonitro trefniant, mae'n bwysig deall beth yw llwyddiant. Gwelwch Atodiad 2 a gynhyrchwyd gan grwpiau ffocws o bobl ifanc a gofawyr maeth yng Nghymru.

### **Cynllunio ar gyfer byw yn dilyn 'Pan Fydda i'n Barod'**

Dylid hefyd datblygu cynllun ar gyfer trefniadau byw wedi 'Pan Fydda i'n Barod' a'i adolygu gyda'r person ifanc yn y cyfarfodydd adolygu cynllunio llwybrau bob chwe mis.

### **Monitro cynllun cyfan 'Pan Fydda i'n Barod'**

Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd i fonitro ei gynllun 'Pan Fydda i'n Barod'. Er mwyn cyflawni'r monitro cynllun cyfan hyn, dylai gwybodaeth briodol o bob adolygiad cynllunio llwybrau unigol gael ei gofnodi, a'i ddarparu i'r aelod o staff awdurdod lleol sy'n gyfrifol am fonitro'r cynllun. Dylai'r hyn gaiff ei ystyried yn wybodaeth briodol gael ei nodi ym mholisiau a gweithdrefnau 'Pan Fydda i'n Barod' yr awdurdod lleol.

## **f. 21 – 25 oed. Monitro ac adolygu'r trefniadau byw ac addysg.**

Gall y trefniant ddim ond parhau heibio 21 oed os bydd y person ifanc yn cymryd rhan mewn rhaglen gytunedig o addysg neu hyfforddiant sy'n cael ei nodi yng nghynllun llwybr y person ifanc. Gellir diweddarau'r cynllun llwybr drwy:

- fonitro cynnydd yn y newid i fyw'n annibynnol
- monitro cynnydd y trefniadau addysgol
- sicrhau bod y trefniadau byw yn dilyn 'Pan Fydda i'n Barod' yn dal i fod yn hyfyw ac yn cael eu diweddarau.

Mae'r trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' yn dod i ben pan:

- mae'r person ifanc yn cwblhau eu rhaglen gytunedig o addysg neu hyfforddiant
- mae'r person ifanc sy'n dal i gymryd rhan mewn rhaglen gytunedig o addysg neu hyfforddiant yn cyrraedd 25 oed.

## 8. Cefnogi pobl sy'n defnyddio 'Pan Fydda i'n Barod'

Ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniad y gofalwr maeth i fod yn ofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' ac ar barodrwydd y person ifanc i gychwyn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', fydd ansawdd eu perthnasau ac i ba raddau y mae cysylltiadau cadarn wedi'u sefydlu. Yn ogystal â chynllunio effeithiol, bydd ansawdd y gefnogaeth i'r gofalwr a'r person ifanc yn chwarae rhan bwysig o ran cyflawni canlyniad llwyddiannus.

Mewn ystyr ymarferol bob dydd, gall person ifanc a gofalwr sy'n cychwyn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' ystyried hwn yn barhad o'u lleoliad maeth blaenorol. Tra fod hyn yn wir mewn sawl ffordd, dylai cymorth sicrhau bod y person ifanc a'r gofalwr yn creu perthynas oedolyn i oedolyn â'r naill ochr a'r llall yn cydnabod eu rhwymedigaethau ac yn symud tuag at y nod clir o ddatblygu'r person ifanc yn oedolyn annibynnol ffyniannus.

### a. Cefnogi pobl ifanc

Bydd gan bob person ifanc sy'n byw mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' rhyw lefel o anghenion cymorth. Dylai'r rhain gael eu hamlinellu yn y cynllun llwybr a'u hadlewyrchu'n llawn yn eu cytundeb byw gyda'n gilydd. Yn ychwanegol at y gefnogaeth ddyddiol a gynigir gan y gofalwr, efallai y bydd angen cymorth gan grŵp ehangach o bobl megis eu cynghorydd personol.

Isod mae rhai o'r ffactorau y dywed pobl ifanc eu bod yn bwysig. Gall y rhain fod yn ddefnyddiol wrth ystyried pa gymorth a allai fod ei angen.

- cael gwrandawriad ynghylch eu meddyliau a'u dymuniadau
- cadw cyfathrebu'n agored, a gwneud eich meddyliau a'ch teimladau yn hysbys
- gallu gofyn am gymorth pan fo angen
- derbyn cefnogaeth emosiynol oddi wrth y gofalwyr, gyda'r gofalwyr yn eu tro yn cael cefnogaeth briodol
- cadw cyd-barch at ei gilydd gan gynnwys eiddo, gofod a phreifatrwydd ei gilydd
- cael cyfrifoldebau cynyddol
- gofalwyr yn derbyn hyfforddiant i ddysgu sgiliau byw'n annibynnol fel cyllidebu, coginio a rheoli biliau i bobl ifanc
- cyfarfodydd rheolaidd rhwng y person ifanc, eu cynghorydd personol a'u gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' i siarad am yr hyn sy'n mynd yn dda neu ddim crystal, ac unrhyw anghenion cymorth ychwanegol
- hyfforddiant ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r broses, gan gynnwys pobl ifanc
- gweithiwr cymorth sy'n gwybod popeth am 'Pan Fydda i'n Barod'
- person a enwir sy'n deall y system fudd-daliadau
- mynediad i wasanaeth eiriolaeth.

Dylai cefnogaeth gael ei gynllunio mewn ffordd sy'n helpu'r person ifanc i ddod yn raddol yn fwy annibynnol, yn ymarferol, yn ymddygiadol ac yn emosiynol. Gall hyn gynnwys cymorth o ran chwilio am waith, llesiant, addysg a hyfforddiant.

### **Budd-daliadau Lles ar gyfer pobl ifanc**

Gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau, efallai y bydd y person ifanc yn gymwys i gael rhai budd-daliadau prawf modd (fel budd-dal tai) o 18 oed, neu dderbyn bwrsariaeth addysg, neu gael incwm o gyflogaeth amser llawn neu ran-amser. Os yw'r person ifanc yn anabl, efallai y byddant yn gallu hawlio budd-daliadau yn 16 oed gan gynnwys Taliadau Annibyniaeth Bersonol.

Mae'n bwysig bod y person ifanc yn derbyn eu Yswiriant Gwladol gan fod hyn yn hanfodol i ymgymryd â chyflogaeth a/neu hawlio budd-daliadau<sup>3</sup>. Efallai y bydd angen cymorth ar y person ifanc i wneud hyn.

Mae cael ffynhonnell incwm yn golygu y bydd y person ifanc yn gallu cyfrannu at eu bwyd a'u llety, yn ogystal â chwrdd â'u treuliau personol eu hunain megis dillad, teithio neu arian gwyliau. Mae hyn yn annog y person ifanc i ddatblygu eu sgiliau cyllidebu, ac yn cynorthwyo i baratoi ar gyfer byw'n annibynnol.

Bydd angen cyfrifo cyfraniad y person ifanc ar sail achos-wrth-achos, yn enwedig i bobl ifanc mewn cyflogaeth gyda chytundebau cyfnewidiol neu gontractau 'dim' oriau.

## **b. Cefnogi gofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod'**

### **Cyngor ac arweiniad cyffredinol gan yr awdurdod lleol**

Dylai gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n dod yn ofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael y wybodaeth, yr hyfforddiant a'r cymorth priodol i gyflawni eu rôl newydd yn ofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'. Dylai'r hyfforddiant a'r gefnogaeth hon ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a gallu y gofalwr a fydd yn ofynnol i gynorthwyo'r person ifanc i gyflawni'r canlyniadau penodol a nodir yn y cytundeb byw gyda'n gilydd.

Os bydd y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' hefyd yn ofalwr maeth, bydd y strwythur goruchwylio a chefnogi ar gyfer y gofalwr yn cynnwys y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' gyda'r gofalwr yn dal i fod yn destun adolygiad blynyddol.

Os bydd y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' mewn cartref lle nad oes plant sy'n derbyn gofal, bydd yr awdurdod lleol yn cytuno ar y strwythur priodol ar gyfer cymorth gyda'r gofalwr. Yn y sefyllfa hon, nid yw rheoliadau maethu bellach yn berthnasol. Fodd bynnag, wrth gefnogi trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', mae'n bosib y bydd yr awdurdod lleol yn dal i ddymuno cynnig y cymorth canlynol.

---

<sup>3</sup> [www.gov.uk/apply-national-insurance-number](http://www.gov.uk/apply-national-insurance-number)

- dychwelyd i banel maethu pan fo newid mewn amgylchiadau
- gwiriad DBS bob tair blynedd ar bob aelod sy'n oedolyn yn y cartref, ymwelwyr rheolaidd, a phlant y gofalwr sy'n 16 oed a throsodd
- gwiriadau iechyd a diogelwch
- mynychu hyfforddiant sy'n ofynnol a grwpiau cymorth dewisol
- goruchwyliaeth a chymorth rheolaidd gan y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol.

Mewn rhai amgylchiadau, gall gofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' barhau i gael un neu fwy o leoliadau maeth yn byw yn y cartref. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y rheoliadau maethu'n berthnasol, gyda'r unigolyn 18+ oed yn cael eu monitro'n rhan o'r prosesau a'r gweithdrefnau hynny.

Bydd pobl ifanc 18+ oed angen gwiriad DBS mewn cartrefi lle mae plant maeth yn byw a chyfrifoldeb y gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo fydd sicrhau cwblhau'r dasg.

Gall gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' hefyd barhau i fod yn ofalwr maeth, ac yn y sefyllfa hon, byddant yn parhau i dderbyn goruchwyliaeth a chefnogaeth yn y rôl honno gan eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, fydd angen ystyried y ffaith bod y cartref yn cynnwys person ifanc y maen nhw hefyd yn ofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' iddynt.

Pan fydd gofalwyr maeth yn peidio â meithrin er mwyn dod yn ofalwr 'Pan Fydda i'n Barod', dylid hefyd ystyried a oes modd i'r gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwyllo barhau i ddarparu cefnogaeth / lefel o gefnogaeth iddynt gan y bydd hyn yn rhoi parhad.

### **Dysgu a datblygu**

Er ei bod hi'n bosibl fod gan ofalwyr maeth y sgiliau craidd ar gyfer cefnogi person ifanc tuag at annibyniaeth yn 18 oed, efallai y byddant yn gweld dimensiynau ymarferol, cyfreithiol a moesegol gofalu am blentyn yn ofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' yn wahanol iawn i'r rheiny ar gyfer cefnogi oedolyn. O ganlyniad, efallai na fyddant bob amser yn teimlo'n ddigonol barod ar gyfer y dasg.

Felly, dylid darparu hyfforddiant a/neu gymorth penodol strwythuredig i ddiwallu eu hanghenion a gofynion unigol i ymgymryd yn llwyddiannus â'u cyfrifoldebau 'Pan Fydda i'n Barod'.

### **Cefnogaeth ariannol**

Mae cefnogi'r gofalwr i ddeall yn llawn effaith ariannol y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' ar sefyllfa ariannol eu teulu yn hanfodol. Gall y cyfrifiadau ariannol hyn fod yn eithaf cymhleth, felly mae'n bwysig bod y person sy'n cefnogi'r gofalwr yn cychwyn y trafodaethau hyn gan fod yn gwbl ymwybodol o bolisi a phrosesau 'Pan Fydda i'n Barod' yr awdurdod lleol, a sut i'w dehongli ar gyfer sefyllfa benodol y gofalwr.

Caiff taliadau a wneir gan awdurdodau lleol i ofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' eu gwneud yn unol â darpariaeth a wneir o dan Ddeddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya).<sup>4</sup>

Mae cyfradd y lwfans 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael ei gosod gan yr awdurdod lleol a dylai dalu am yr holl gostau rhesymol o gefnogi'r person ifanc i barhau i fyw gyda'u gofalwr. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai'r cymorth ariannol a roddir i ofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' gyfateb â'r Lwfansau Isafswm Cenedlaethol a delir i ofalwyr maeth.

Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn caniatáu ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd, gan alluogi'r awdurdod lleol i ymateb i anghenion ac amgylchiadau penodol y gofalwr, y person ifanc ac aelwyd y teulu. Yn achos rhai gofalwyr maeth, efallai mai colli incwm ffioedd maethu fydd y prif rwystr rhag sefydlu trefniant 'Pan Fydda i'n Barod', yn enwedig os taw maethu yw eu prif ffynhonnell incwm. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno ystyried talu swm ychwanegol i sicrhau y gall y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' fynd yn ei flaen.

Yn wahanol i'r lwfans maethu dalwyd yn flaenorol i'r gofalwr, ni fydd yn cynnwys unrhyw elfen i'w roi, neu i'w wario ar y person ifanc megis ar eitemau personol, dillad, lwfansau teithio neu wyliau, gan y bydd rhain yn cael eu disodli gan enillion y person ifanc neu eu hawliad budd-dal pan fyddant yn cyrraedd 18 oed.

Dylai'r lwfans sylfaenol a delir i'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' adlewyrchu unrhyw gyfraniad a wneir gan y person ifanc. Gall cyfraniad y person ifanc gynnwys eu budd-dal tai a/neu eu cyfraniad tuag at fwyd a llety. Felly, mae'r lwfans yn gyfuniad o:

1. fudd-dal tai y person ifanc
2. unrhyw gyfraniad ychwanegol a wneir gan y person ifanc tuag at eu bwyd a llety
3. yr awdurdod lleol yn 'ychwanegu at' y diffyg wedi i'r ddau gyfraniad uchod gael eu gwneud tuag at gyfradd lawn y lwfans 'Pan Fydda i'n Barod'.

Yn gyffredinol, bydd gwerth y lwfans yn berthnasol i bob trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol efallai y bydd yn arfer da i ystyried talu lwfans cyfradd uwch lle mae anghenion cymorth y person ifanc yn cael eu cynyddu'n sylweddol oherwydd ffactorau megis:

- anhawster dysgu mân i gymedrol
- anghenion iechyd meddwl parhaus
- problemau ymddygiad difrifol.

<sup>4</sup> <http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy>, gweler Rhan 6, Trefniadau Ariannol Ôl-18 (tudalennau 139 - 141)



Gall taliad digolledu ychwanegol hefyd gael ei wneud os yw'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' ar eu colled o ganlyniad i newidiadau yn eu statws treth neu fudd-daliadau o ganlyniad i'r cynllun.

I grynhoi, mae'r Cod Ymarfer yn nodi y bydd angen i ofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' wybod:

- y swm sydd i'w dalu
- pryd y bydd taliadau yn dod i ben
- unrhyw drefniadau ar gyfer adolygu lefel y taliad
- at beth y bwriedir y taliad, ac a yw'n cynnwys elfen ffi yn ogystal â lwfans
- a ellir gwneud taliadau dewisol ychwanegol
- a ddisgwylir i'r person ifanc wneud unrhyw gyfraniadau ac a fydd hyn yn effeithio ar lefel y taliad
- a yw lwfans y gofalwr yn cynnwys unrhyw daliadau y mae disgwyl iddynt eu gwneud i'r person ifanc
- beth sy'n digwydd os yw'r person ifanc i ffwrdd dros dro - er enghraifft, yn y brifysgol neu ar wyliau
- beth fydd yn digwydd os bydd y person ifanc yn colli eu hawl i fudd-daliadau dros dro oherwydd gosod sancsiwn
- sut y bydd taliadau yn effeithio ar hawl budd-daliadau a rhwymedigaethau treth, a ble i gael cyngor.

### **Yswiriant**

Hefyd bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod gofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' yn ymwybodol o'r ystyriaethau ymarferol canlynol ynghylch yswiriant:

- Dylai gofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'w darparwr morgais neu landlord, a'u darparwr yswiriant adeiladau a chynnwys, y byddant yn parhau i gefnogi cyn-blentyn maeth yn oedolyn ifanc o dan drefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Gall methu â gwneud hynny achosi torri gofynion morgais/tenantiaeth a gall arwain at fod yswiriant yn ddi-rym oherwydd 'methiant i ddatgelu ffeithiau perthnasol'.
- Mae'n ofynnol i ofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' sy'n cludo pobl ifanc i sicrhau'r un lefel o safonau a gofal ag y gwnaethant pan oeddent yn cludo plentyn maeth - h.y. yswiriant busnes cynhwysfawr, MOT dilys, Trwydded Cerbyd Ffordd ddilys a cherbyd sy'n addas i'r ffordd fawr.
- Dylai gofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' gael gwybodaeth am yswiriant atebolrwydd mewn sefyllfaoedd lle gall pobl ifanc wneud honiad yn erbyn plentyn maeth mewn lleoliad, neu yn erbyn eu gofalwr/wyr 'Pan Fydda i'n Barod', neu os caiff honiad ei wneud yn erbyn y person ifanc. Dylai gofalwyr maeth / gofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' fod yn glir am y trefniadau ar gyfer ymestyn yswiriant yn dilyn pen-blwydd person ifanc yn 18 oed.




## 9. Esiampiau o Bortffolio Sgiliau Byw'n Annibynnol.

### Enghraifft 1

Gweithgaredd – Sgiliau coginio					
Bwyd	Tost	Ffa pob ar Dost	Pryd gyda 4 o brif gynhwysion	Pryd dau gwrs ar gyfer 1 person	Pryd dau gwrs ar gyfer 2 person
Cyflawnwyd yn Llawn	22/8/14	4/9/14	12/10/14	2/1/15	

### Enghraifft 2

Gweithgaredd – Mynd at y meddyg	
Beth yw pwrpas fy ngweithgaredd?	Mae angen i fi gael meddyg
Pwy wnaiff fy helpu i?	Janet, fy Nghyngorydd Person Ifanc Sue, fy ngofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'
Beth sydd angen arnaf i fy helpu i gyflawni hyn?	Mae angen i fi wybod ble mae'r meddygfeydd. Mae angen i fi gael ffurflen o'r feddygfa a'i llenwi. Rydw i am gael meddygfa sy'n ddigon agos i gerdded iddi.
Tystiolaeth o gyrhaeddiad	
<p>Mi wnes i gofrestru gyda'r Meddyg Teulu ar 16<sup>eg</sup> Mawrth 2014. Enw fy meddyg teulu yw Dr Morgan, ond mae yna feddygon eraill yn y syrjery y gallwn i eu gweld.</p> <p>Y cyfeiriad a'r manylion cyswllt yw: Meddygfa'r Priordy Stryd Newydd 01665 752009</p>	
	
Llofnodwyd	Dyddiad

## 10. Treulio amser mewn prifysgol neu goleg

Pan fydd person ifanc mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn mynd i ffwrdd i brifysgol neu goleg, dylent fod yn gallu dychwelyd i gartref y gofalwr yn ystod y gwyliau.

Os mai'r bwriad yw bod y person ifanc yn dychwelyd adref yn ystod y gwyliau, dylid rhoi ystyriaeth i gadw'r trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn agored - h.y. ni fydd mynd i ffwrdd i'r brifysgol neu goleg yn ystod y tymor yn terfynu'r trefniant.

Mae'n bosib y gall awdurdod lleol geisio lleihau taliadau i'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' tra bod y person ifanc i ffwrdd. Bydd ystyriaethau tebyg yn berthnasol pan fo person ifanc yn ymuno â'r Lluoedd Arfog neu'n dechrau unrhyw raglenni hyfforddiant neu gyflogaeth eraill sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i berson ifanc symud i ffwrdd o gartref am gyfnod.

Dylid cofio lle bo'r trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn cwmpasu aros yn ystod gwyliau yn unig, ac mae yna blant maeth yn byw yn y cartref, mae'r person ifanc mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' yn oedolyn yn y cartref ac mae angen sicrhau'r gweithdrefnau diogelu priodol.

## 11. 'Pan Fydda i'n Barod' o'i gymharu â threfniadau eraill

Er bod rhaid i drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' gael eu hystyried bob amser yn opsiwn a ffefrir ar gyfer y rhan fwyaf o bobl sy'n gadael gofal sydd wedi bod mewn gofal maeth, ni fydd hyn bob amser y dewis mwyaf priodol. I rai, bydd byw'n annibynnol, llety â chymorth, dychwelyd i fyw gydag aelodau o'r teulu, neu ddewis arall, yn cael eu ffafrio.

### Llety â Chymorth

Mae Llety â Chymorth yn tueddu i ddarparu lefel is o gefnogaeth o'i gymharu â 'Pan Fydda i'n Barod', ond gall fod yn ddewis addas ar gyfer rhai sy'n gadael gofal, yn hytrach na, neu yn dilyn trefniant 'Fydda i'n Barod'. Dylid trafod rhinweddau cymharol gwahanol drefniadau gyda'r person ifanc a'u gofalwyr maeth fel rhan o'r broses asesu a chynllunio llwybr. Os yw'r person ifanc yn dymuno aros gyda'u gofalwr maeth y tu hwnt i 18 oed, bydd hyn bron bob amser o dan drefniant 'Pan Fydda i'n Barod'.

Yn bennaf, cynllun tai yw Llety â Chymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed, ac nid yw'n gweithredu ar y model teuluol a hyrwyddir gan 'Pan Fydda i'n Barod'. Mae'r rheolau treth a budd-daliadau ar gyfer Llety â Chymorth hefyd yn wahanol i'r rhai ar gyfer 'Pan Fydda i'n Barod', yn enwedig o ran gofal rhyddhad cymwys i'r gofalwr/darparwr Llety â Chymorth.

### Llety rhent preifat

Ar gyfer pobl ifanc sy'n dymuno annibyniaeth, gallant rentu llety gan landlord yn breifat. Fel arfer, nid yw hwn ond ar gael i bobl dros 18 oed gan fod angen i chi fod yn oedolyn i arwyddo cytundeb tenantiaeth yn gyfreithiol.

### Lleoliadau Oedolion

Mae 'Pan Fydda i'n Barod' hefyd yn wahanol i Lleoliadau Oedolion (gaiff fel arfer eu galw'n gynlluniau Shared Lives), a allai fod yr opsiwn fwyaf addas hirdymor ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth parhaus ac sy'n annhebygol o fyth allu byw'n annibynnol.

## 12. Fframwaith rheoleiddio a diogelu

Wrth sefydlu trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod', bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod eu gweithdrefnau diogelu yn cael eu diweddarau i gynnwys y trefniadau hyn, fel bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yn y cartref yn cael eu diogelu rhag niwed a cham-drin.

### **Lle mae plant maeth yn byw mewn cartref 'Pan Fydda i'n Barod'**

Pan fydd person ifanc yn cyrraedd 18 oed ac mae plant maeth eraill yn byw yn y cartref, bydd y gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' yn parhau i fod yn ofalwr maeth cymeradwy a bydd pob agwedd ar y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â maethu'n parhau i fod yn berthnasol ac yn llywodraethu rheoleiddio'r cartref cyfan. Er y bydd y ddeddfwriaeth maethu yn berthnasol yn bennaf i leoliadau y plant maeth/sy'n derbyn gofal, mae'n sicrhau y caiff system o gymeradwyaeth, gwirio a goruchwyliaeth ei gymhwyso at y cartref cyfan.

### **Gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

Y newid mawr yw y bydd y cyn blentyn maeth yn dod yn aelod o'r cartref ar sail oedolyn, a felly bydd angen:

- gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) (a elwir gynt yn wiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB))
- asesiad risg os yw'r gwiriad CRB yn dangos 'arlliw' (risg posibl).

Bydd angen fod y broses wedi cychwyn mewn amser digonol i sicrhau bod y gwiriad ac unrhyw asesiad risg yn cael eu cwblhau erbyn pen-blwydd y person ifanc yn 18 oed.

Bydd angen i'r gofalwr maeth hefyd gael ei ddychwelyd i'r panel maethu oherwydd newid mewn amgylchiadau - h.y. fod un o'r plant maeth wedi troi'n 18 oed a bellach yn byw yn aelod o'r aelwyd ar sail oedolyn mewn trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Bydd angen i'r panel maethu ystyried effaith y trefniant 'Pan Fydda i'n Barod' ar delerau cymeradwyaeth y gofalwr maeth, gan gynnwys y niferoedd gaiff eu cymeradwyo ac a yw hyn yn cynnwys y person ifanc 'Pan Fydda i'n Barod'.

### **Lle nad oes plant maeth yn byw yn y cartref 'Pan Fydda i'n Barod'.**

Pan fydd person ifanc yn troi'n 18 oed, ac nid oes unrhyw blant maeth eraill yn y cartref, ni fydd y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â maethu'n berthnasol mwyach. Lle mae'n amlwg na fydd y gofalwr maeth 'Pan Fydda i'n Barod' yn maethu unrhyw blant pellach, gall fod yn briodol i derfynu eu cymeradwyaeth yn ofalwr maeth. Lle mae'n bosibl y gallant feithrin eto yn y dyfodol, gall fod yn amhriodol i derfynu eu cymeradwyaeth, o ystyried faint o amser fyddai ail-gymeradwyo'n ei gymryd, a bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau eu bod yn gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol o dan y rheoliadau maethu i gadw'r gymeradwyaeth ar agor.

# Atodiad 1 Rolau a Chyfrifoldebau ar gyfer gweithredu 'Pan Fydda i'n Barod'

## Y Gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'

- Darparu cartref i'r person ifanc.
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i'r person ifanc o ddydd i ddydd.
- Sicrhau fod y person ifanc yn parhau i adeiladu ar y sgiliau angenrheidiol ar gyfer byw'n annibynnol, a'u bod yn gwybod ble i fynd am help pan fo angen.
- Cynorthwyo'r person ifanc i ddatblygu gallu emosiynol a hunanhyder er mwyn ymdopi trwy fywyd yn oedolyn.
- Cymryd rhan yn adolygiadau'r cynllun llwybr.

## Cynghorydd personol

- Cynghori, cynorthwyo a chyfeillio'r person ifanc.
- Cadw mewn cysylltiad â'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'.
- Trafod opsiynau gyda'r person ifanc yn rhan o broses cynllunio ac asesu llwybr.
- Helpu'r person ifanc i wneud cais am eu gwiriad DBS yn ogystal â budd-daliadau lle bo'n berthnasol fel y gall taliadau gychwyn ar ben-blwydd y person ifanc yn 18 oed.
- Cysylltu â'r awdurdod lleol yng ngweithrediad y cynllun llwybr.
- Cydlynu darpariaeth gwasanaethau i gefnogi'r person ifanc a hyrwyddo'u llesiant.
- Gwybod am ddatblygiad a llesiant y person ifanc.
- Cyfrannu i'r broses fonitro.

## Gweithiwr cymdeithasol y person ifanc

- Gweithio ochr yn ochr â'r cynghorydd personol a'r person ifanc i ddatblygu'r cynllun llwybr.
- Paratoi unrhyw adroddiad/ddiweddariad sydd eu hangen gan y Swyddog Adolygu Annibynnol ac adolygiadau'r cynllun llwybr.
- Cysylltu â'r Swyddog Adolygu Annibynnol er mwyn sicrhau y caiff y cynllun llwybr ei adolygu'n rheolaidd.
- Gweithredu ar unrhyw gamau sy'n deillio o'r adolygu a sicrhau/goruchwyllo fod unrhyw gamau sy'n deillio o'r adolygiad ac sy'n gyfrifoldeb y cynghorydd personol yn cael eu gweithredu.
- Cydlynu gwasanaethau er mwyn sicrhau y gall y cynllun llwybr gael ei weithredu (gan gynnwys iechyd, addysg ayb.).

- Cadw cysylltiad â'r person ifanc a'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' (a phan fo angen gweithiwr cyswllt/gweithiwr cymdeithasol gwasanaeth maethu'r gofalwr) i edrych ar gynnydd, cynllunio'r dyfodol ac ymdrin â materion wrth iddyn nhw godi
- Canfod ac ystyried dymuniadau a theimladau'r person ifanc.

### **Y gweithiwr cymdeithasol goruchwyllo o'r gwasanaeth maethu**

- Cynorthwyo'r gofalwr maeth i wneud dewis cytbwys ynghylch a ddylent ddod yn ofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'.
- Egluro'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' i'r gofalwr maeth, a thrafod oblygiadau ariannol ac eraill dod yn ofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'.
- Os yw'r gofalwr hefyd yn ofalwr maeth, ystyried oblygiadau hyn o ran maethu, mynd i'r afael â hyn drwy oruchwyllo a chyfrannu i adolygiad eu cymeradwyo'n ofalwyr maeth.
- Parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r gofalwr pan gaiff y lleoliad maeth ei drosi i drefniant 'Pan Fydda i'n Barod'.
- Cydlynu darpariaeth gwasanaethau i gefnogi'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod'.
- Sicrhau fod y gofalwr yn derbyn y taliadau cywir.
- Cymryd rhan yn adolygiadau'r cynllun llwybr.
- Ymateb i anghenion dysgu a datblygu'r gofalwr.
- Goruchwyllo'r trefniant 'Pan Fydda i'n Barod'.

### **Rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol**

- Canfod dymuniadau a theimladau'r person ifanc a sicrhau y caiff rhain eu cofnodi a'u cyfathrebu i weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r person ifanc.
- Adolygu'r cynllun llwybr a sicrhau fod camau gaiff eu gweithredu gan y gweithiwr cymdeithasol arolygu, y cynghorydd personol a'r gweithiwr cymdeithasol er lles y person ifanc ac y cadwyd at ganllawiau 'Pan Fydda i'n Barod'.

## Atodiad 2 Beth yw Llwyddiant?

Nododd grwpiau ffocws gyda phobl ifanc a gofalwyr maeth yng Nghymru y dangosyddion llwyddiant canlynol ar gyfer cynlluniau 'Pan Fydda i'n Barod'.

### Disgrifiwyd llwyddiant gan bobl ifanc fel hyn:

Cyfle i archwilio a rhoi cynnig ar bethau

- teimlo'n ddigon diogel i archwilio a rhoi cynnig ar bethau
- gallu newid eich meddwl heb golli pob cefnogaeth
- cael y cydbwysedd iawn o annibyniaeth a chefnogaeth
- cael y cyfle i wneud yr un peth â phobl ifanc eraill
- cymryd camau graddol tuag at annibyniaeth dros amser

Gwybod beth i'w ddisgwyl a pha gefnogaeth sydd ar gael

- deall beth allwch chi ei ddisgwyl a'r hyn mae gennych chi hawl iddo
- wedi'i gynllunio ymhell cyn i'r person ifanc droi'n 18 oed
- eglurder ynghylch pwy yw pawb a beth yw eu rôl
- eglurder am reolau'r tŷ a chyllid
- rhoi gwybodaeth i ni am yr arian y mae gennym ni hawl iddo, a'n helpu ni i'w hawlio

Profiad cadarnhaol yn y cartref

- gwybod mai dy gartref di yw e a'i fod yn sefydlog
- allwedd y drws blaen eich hun
- gwybod eich bod chi'n bwysicach nag arian a chyllid
- dim torri addewidion

Cysur a sicrwydd

- teimlo'n rhan o'r teulu a heb gael eich trin fel lletywr
- rhywun i syrthio'n ôl arnynt, sydd yna i chi ac sy'n gofalu amdanoch chi
- gofalwyr all eich helpu chi i wneud penderfyniadau pwysig am eich dyfodol

Annibyniaeth

- bod yn hyderus i fyw ar fy mhen fy hun pan ddaw'r amser
- meddu ar y sgiliau i fyw'n annibynnol
- gallu cael mynediad i addysg a hyfforddiant
- gallu cadw mewn cysylltiad gyda'n gofalwyr wedi i ni symud allan
- cael ein cartref a'n harian i'n cefnogi ein hunain pan ydym ni'n symud allan

## Disgrifiwyd llwyddiant gan ofalwyr maeth / 'Pan Fydda i'n Barod' fel hyn:

### Teimlo'n rhan o deulu

- mae'r person ifanc yn parhau i deimlo'n rhan o'r teulu
- cynhwysir pawb gaiff eu heffeithio'n y paratoi a'r cynllunio
- mae pob person ifanc sydd wir ei angen yn cael y cyfle i aros
- mae pobl ifanc yn deall manteision aros ymlaen, ac yn cael y gefnogaeth iawn i wneud dewis cytbwys
- mae pobl ifanc a gofalwyr yn ymddiried yn ei gilydd ac maent yn cadw at addewidion
- gall bobl ifanc roi cynnig ar bethau a gwneud camgymeriadau heb gael eu cosbi

### Dyheadau

- mae gan bobl ifanc ddyheadau a chefnogaeth i'w cyflawni nhw
- cynlluniau clir yn bodoli y gall pawb weithio tuag atynt
- pobl ifanc yn cael eu galluogi i reoli eu cyllid yn raddol dros amser
- pobl ifanc yn dysgu sgiliau byw'n annibynnol megis rheoli biliau a choginio
- mae pobl ifanc yn barod i symud ymlaen pan ddaw'r amser

### Statws gofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod'

- Mae gan ofalwyr 'Pan Fydda i'n Barod' rôl sydd wedi'i diffinio'n glir, heb unrhyw amwysedd
- mae'r gofalwyr yn deall y newid yn eu statws o ofalwr maeth i ofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' ac oblygiadau hyn
- mae gweithwyr proffesiynol yn gwrandao ar ofalwyr ac yn eu cynnwys yn llawn pan gaiff penderfyniadau eu gwneud

### Eglurder a pharhad

- mae pawb yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a beth yw'r rheolau sylfaenol
- mae cynllunio llwybr yn cychwyn ar yr adeg cywir fel y gall pobl ifanc a gofalwyr symud yn llwyddiannus i 'Pan Fydda i'n Barod'

### Cyllid

- mae gofalwyr yn deall yr hyn maen nhw'n ymgymryd ag ef, a sut y gallai effeithio ar eu treth a'u budd-daliadau
- nid yw gofalwyr yn poeni am agweddau ariannol bod yn ofalwr 'Pan Fydda i'n Barod', ac maent yn gallu fforddio ymgymryd â'r rôl hon